Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Mike James
Pennaeth
Coleg Caerdydd a'r Fro
2 Dumballs Road
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 5BF

Awst 2014

Annwyl Mike

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Caerdydd a'r Fro**

Yn dilyn ymweliad Steve Bell AEM a Rachael Bubalo AEM â'ch sefydliad ar 26 Mehefin ynghylch yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr ar wefan Estyn.

Cynhaliodd yr arolygwyr drafodaethau gyda'r dirprwy benaethiaid, rheolwyr, tiwtoriaid a swyddogion y coleg. Bu'r ymweliad yn canolbwyntio ar bedair thema: data cyhoeddedig diweddaraf y coleg; deilliannau arolwg Llais y Dysgwr, Cymru, 2014 a strategaeth y coleg ar gyfer gwrando ar ddysgwyr ac ymateb iddynt; strategaeth ddatblygol y coleg ar gyfer cyfoethogi, cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth; ac, effaith uno'r ddau goleg etifeddol i greu Coleg Caerdydd a'r Fro yn 2011.

Ar ddiwedd yr ymweliad, fe wnaeth arolygwyr adrodd eu canfyddiadau i'r dirprwy benaethiaid a'r enwebai.

**Canlyniad ymweliadau'r arolygwyr cyswllt**

Fe wnaeth Estyn arolygu Coleg y Barri yn 2007 a Choleg Glan Hafren yn 2008. Nid yw Coleg Caerdydd a'r Fro – fel coleg addysg bellach – wedi cael ei arolygu ers ei ffurfio.

## 1 Deilliannau a safonau

Mae data 'pob cwrs' ar gyfer 2012-2013 yn dangos bod cyfraddau'r dysgwyr wrth gwblhau ac ennill eu cymwysterau (cyfraddau llwyddo) wedi parhau i wella dros y tair

blynedd diwethaf. Mae cyfradd llwyddo gyffredinol y coleg uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae dadansoddiad Estyn o ddata 'pob cwrs' y coleg (nad yw'n cynnwys deilliannau Sgiliau Hanfodol Cymru) yn rhoi'r coleg yn chwarter uchaf yr holl golegau yng Nghymru ar gyfer 2012-2013.

Er bod mwyafrif y meysydd sector pwnc wedi dangos gwelliant o ran cwblhau cyrsiau'n llwyddiannus rhwng 2011-2012 a 2012-2013, mae lleiafrif wedi dirywio ac mae ychydig, gan gynnwys Gwyddoniaeth a Mathemateg, Gwyddorau Cymdeithasol a Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth, yn perfformio ymhell islaw'r meincnodau cenedlaethol. Yn ogystal, mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a Sgiliau Hanfodol Cymru islaw'r cymaryddion cenedlaethol.

Mae'r coleg yn ymwybodol o'i gryfderau a'i wendidau o ran deilliannau cyrsiau. Caiff dangosyddion perfformiad allweddol eu monitro'n rheolaidd ac maent ar gael i reolwyr a thiwtoriaid ar ddangosfwrdd y coleg. Mae'r coleg yn llunio adroddiad manwl a dadansoddol o berfformiad yn flynyddol, sy'n rhoi gwerthusiad onest o berfformiad presennol. Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn nodi'r prif feysydd i'w datblygu yn briodol.

## 2 Llais y Dysgwr

Yn 2014, fe wnaeth 4,468 o ddysgwyr gymryd rhan yn arolwg Llais y Dysgwr, Cymru. Mae hyn yn cynrychioli tuag un o bob pump o holl ddysgwyr y coleg. Mae'r coleg wedi gwella'i berfformiad yn yr arolwg er 2013. Fodd bynnag, mewn bron pob maes, nid yw'r coleg yn cymharu cystal â meincnodau addysg bellach. Dywedodd 72% o'r holl ddysgwyr yn yr arolwg fod y coleg yn dda neu'n dda iawn at ei gilydd. Mae hyn islaw cyfartaledd y sector. Dywedodd 85% fod eu cwrs yn well na'r disgwyl neu fel y disgwyl. Mae hyn gerllaw cyfartaledd y sector.

Mae'r coleg wedi ymateb yn gyflym i ganlyniadau arolwg y dysgwr. Mae wedi llunio cynllun gweithredu manwl yn dangos y camau y bydd yn eu cymryd mewn ymateb i'r adborth ac mae'n monitro'r cynllun yn dda. Enghraifft dda o ymateb y coleg yw'r camau a gymerwyd i wella'r trefniadau teithio i ddysgwyr trwy weithio gyda'r cwmni bysys lleol i sicrhau amserlen fwy cyfleus.

Mae gan y coleg amrywiaeth eang o systemau i gasglu barn dysgwyr a rhoi adborth iddynt ar y camau a gymerodd i fynd i'r afael â'u pryderon. Er enghraifft, mae'n cynnal ei arolygon ei hun sydd wedi'u teilwra i anghenion penodol gwahanol grwpiau o ddysgwyr fel myfyrwyr SSIE. Hefyd, mae wedi datblygu blwch awgrymiadau ar-lein arloesol. Dyma gyfleuster gweddol newydd ac ni all y coleg ddweud eto pa mor dda y caiff ei ddefnyddio.

Mae'r coleg yn cyflogi cydlynydd llais y dysgwr sy'n gweithio'n effeithiol ar amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys trefnu cynhadledd flynyddol Llais y Dysgwr. Mae'r coleg yn rhoi ystyriaeth dda i'r holl adborth a gaiff drwy'r systemau hyn i wella profiad y dysgwyr.

Hefyd, mae system effeithiol o gynrychiolwyr dysgwyr ar y campws sy'n cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl. Fodd bynnag, mae'r coleg yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i gynnwys dysgwyr rhan-amser yn y trefniadau hyn ac mae wrthi'n recriwtio cynrychiolwyr ychwanegol.

## 3 Cyfoethogi, cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth

Mae'r coleg yn datblygu strategaeth i gyfoethogi profiadau dysgwyr, i ddatblygu eu medrau entrepreneuraidd a chynyddu eu cyflogadwyedd. Mae gan y coleg dîm brwdfrydig, llawn symbyliad sy'n datblygu ac yn gweithredu camau o'r strategaeth. Bydd y rhain yn cynnwys:

- cynghorydd cyflogadwyedd a dilyniant a fydd yn gweithio gyda dysgwyr i'w helpu nhw i gynllunio ar gyfer eu dysgu neu eu gwaith yn y dyfodol;
- cyfleuster chwilio am swyddi i baru dysgwyr â chyflogwyr;
- rhaglen cyn-fyfyrwyr i helpu cyn-ddysgwyr i gadw mewn cysylltiad â'r coleg ac i'r coleg olrhain eu cyrchfannau a dilyn eu cynnydd; ac
- amrywiaeth o weithgareddau i helpu i wella medrau dysgwyr.

Mae potensial gan y strategaeth i ychwanegu dimensiwn ychwanegol gwerthfawr at brofiad y dysgwyr. Ar hyn o bryd, er bod rhywfaint o dystiolaeth o effaith y strategaeth ar ansawdd ac ehangder y profiadau a gaiff dysgwyr, mae'n rhy fuan eto i fesur yr effaith ar ddeilliannau dysgwyr. Yn ogystal, nid yw'n glir sut bydd y coleg yn arfarnu effaith y strategaeth ar ddeilliannau dysgwyr.

## 4 Uno

Yn sgil uno'r ddau goleg a phenodi'r pennaeth newydd a'r uwch dîm arwain, mae ethos a chyfeiriad clir wedi'u sefydlu. Mae blaenoriaethau allweddol 'Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf' yn cael eu cyfleu'n effeithiol i staff ar draws y sefydliad unedig. Dangosodd cyfarfod â'r uwch reolwyr a'r rheolwyr canol fod y tîm arwain ar y lefel hon yn gadarnhaol ynghylch effaith yr uno.

Ers yr uno, mae cyfraddau cyffredinol y dysgwyr wrth gwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus wedi gwella. Mae'r coleg wedi sefydlu cysylltiadau strategol cryfach a mwy effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid, yn benodol gyda Chyngor Caerdydd. Mae wedi cynnal adolygiad o'i gwricwlwm i leihau'r dyblygu diangen yn ei ddarpariaeth ac i wella ansawdd ac effeithlonrwydd. Mae wedi buddsoddi mewn adeilad campws newydd yng nghanol dinas Caerdydd sydd wrthi'n cael ei adeiladu.

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn meysydd sector pwnc a chyrsiau sy'n perfformio islaw lefel cymaryddion cenedlaethol
A2 Recriwtio cynrychiolwyr dysgwyr o gyrsiau rhan-amser
A3 Monitro effaith y strategaeth ar gyfer cyfoethogi, cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth ar ddeilliannau cyffredinol

**Y camau nesaf**

Bydd Steve Bell AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy ei rôl gyswllt gyda'r coleg.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol